# Creu wyneb i Ddewin Blodeuwedd

Gan GUTO ROBERTS



*Gwydion a thraean o'r masg.*



*Gwydion a deuddarn o'r masg.*



*Gwydion a'r masg cyfan*

WEDI'R gwahoddiad gan Siôn Humphreys i gymryd rhan Gwydion y dewin mewn ffilm o "Blodeuwedd" gan Saunders Lewis, cefais alwad ffôn gan Fiona Kemp y ferch a fyddai'n coluro ar gyfer y ffilm ynglŷn â llunio masg i fynegi'r ddeuoliaeth a geir yn y cymeriad.

O Lundain y daethai'r alwad, ac wedi holi a oeddwn yn un am deimlo'n ofnus-fyglyd mewn man caeëdig ac i minnau ddweud fy mod ond y mentrwn y profiad, trefnwyd i ni gyfarfod yng ngorsaf Euston.

Roedd yr awgrym o ofnadwyaeth a gaed yn yr holiad ar y ffôn a'r rhybudd y gallasai'r oruchwyliaeth o greu'r masg gymryd tuag ugain munud o amser wedi ennyn ias o betruster ynof erbyn yr adeg y teithiwn yng nghwmni fy ngwraig ar y trên o Fangor i Lundain.

Credwn, fodd bynnag, na allasai'r gofynion fod yn ddim rhagor na gorwedd ar wastad fy nghefn ar un o feinciau moethus y ddinas fawr ac y gorchuddid fy wyneb â rhyw hylif a wnâi yn ei bryd a'i amser ymffurfio'n drwch o fasg, ac na fyddai'r ugain munud y soniwyd amdano namyn cyfle i ymlacio ar derfyn y daith.

* * * * *

WEDI'R cipio sydyn mewn tacsi o orsaf Euston caed mai yn un o'r ystrydoedd cefn yn nhueddau Finchley Road roedd y dewin o Sais a oedd i lunio'r masg yn byw ac mai gweithdy digon aflêr oedd ei drigfan.

Deallais hefyd, mai am fy ngosod i eistedd yr ydoedd fel ŵy ar ben trosol mewn cadair uchel, brin ei chefn, ac mai'r bwriad oedd gorchuddio fy mhen, wyneb a chorun a gwegil, â hylif tew, ac y disgwylid i hwnnw galedu ac ymffurfio, o'i fewn i lun a delw o'm pen innau.

Bwriad digon teg a dymunol, gredwn i, hyd nes i un o'r ddau ddewin oedd yno fynd ati i'm sicrhau ragor nag unwaith mai'r cyfan a fyddai'n angenrheidiol i mi i'w wneud pe teimlwn fy hun yn mygu fyddai ei gyffwrdd ef yn ei glun ac y gallasai yntau wedyn, ar amrantiad, fy ngollwng o'r caethiwed.

Y cam cyntaf oedd gosod cap o rwber tenau i ddiogelu'r ychydig wallt sydd gennyf ac yna gosod haen ar haen o blastar-Paris dros y cap rwber o ganol y pen, dros y gwegil, hyd at y gwddf, a phob trwch ohono yn fy ngyrru'n fwyfwy pendrwm.

Doedd hyn, mewn gwirionedd, yn ddim amgen na rhyw brofiad tu chwithig megis o gael torri fy ngwallt ond mai trymhau ac nid ysgafnhau a wnâi'r pen.

* * * * *

WEDI CRYN ddeng munud o fodio a chrafu a phwnio'r plastar sylweddolwn yn araf bach fy mod wedi goroesi hanner y driniaeth ond bod yr hanner mwyaf bygythiol eto i'w wynebu; ac wedi'm hatgoffa unwaith yn rhagor gan y dewin am y modd i'w rybuddio o'm hofnau, rhoes glamp o ddysgl dri chwarter llawn o ryw gymysgfa liw oren i'm gwraig a darn o bren o drwch a maint pensel i Fiona Kemp, a oedd wedi trefnu'r cyfan, i gadw fy ffroenau'n glir, ac ymfwriodd y ddau ddewin â'u dwylo noeth i orchuddio gweddill y pen â chynnwys y ddysgl.

Roeddwn i bellach mewn byd arall, ac am y tro, yr unig dro medd fy ngwraig, fedrwn i ddweud yr un gair! Yno, megis mewn seler ddofn a sŵn tylino a chrafu'r dewiniaid wrth ychwanegu haen ar haen o blastar-Paris at yr haen o'r hylif oren fel sŵn degau o lygod mawr yn tyrchu amdanaf.



*Patrwm y masg oedd hen gerfiad o wyneb Celtaidd yn Takounik, Siecoslofacia.*

"Cadw mhen" oedd y peth pwysicaf i mi a rhaid cyfaddef na theimlwn hynny'n straen o fath yn y byd; ond fel y llusgai'r eiliadau yn funudau euthum i deimlo rhyw sychder a thuedd at gosi yng nghorn fy ngwddf, a'r anadlu'n mynd yn drymach, drymach drwy'r deudwll prin yn y plastar a'm hofnadwyaeth bellach oedd imi ddechrau pesychu ac yn y cyfwng hwnnw orfod galw ar y dewin i'm harbed.

Ddaeth mo'r gofyn, fodd bynnag, a chyn hir mi glywais ei lais yn galw o bell yn y Saesneg mwyaf soniarus a glywswn erioed: "wriggle your face now," ac yna'r deuddarn plastar yn cael eu gwahanu a minnau'n camu o'm byd bach caeëdig i gael fy nghipio unwaith yn rhagor gan fy ngwraig i hwrlibwrli'r ddinas a chlawstroffobia siopau prysur Regent Street, Llundain Fawr.

Dangosir y ffilm am Blodeuwedd ar S4C ar Wyl Ddewi.

(Dangosir y ffilm am Blodeuwedd ar S4C ar Ŵyl Ddewi.)


**SIOP-Y-MORFA, 109, Stryd Fawr, Y Rhyl, Clwyd, LL18 1TR**

**SAESNEG**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | GREAT WELSHMEN OF MODERN DAYS. Syr (!) Thomas Hughes. Wesdyrn Mêl 1931. CM | £5.00 |
| 2. | THE CHURCH IN A MOBILE SOCIETY–Industrial S.W. Wales. Gol. Vivian Jones 1969 | £2.00 |
| 3. | THE HIDDEN HAND–A volume of ten sermons. I. D. E. Thomas. Abertawe 1976 | £2.50 |
| 4. | WELSHMEN–from Earliest Times to Llywelyn. Stephens (2il Arg.) 1901. *Da* | £5.00 |
| 5. | LIFE WAS LIKE THAT: T. Lloyd Roberts. Bala Press. DD | £1.50 |
| 6. | HOMES OF WALES: O. M. Edwrds. Cyf. T. Eurfyl Jones. Hughes a'i Fab 1931 | £4.50 |
| 7. | A CORNISH CHILDHOOD: A. L. Rowse. Readers Union 1944 | £1.50 |
| 8. | MODERN WALES: H. T. Evans. Educ. Publ. Co. Wrecsam DD (tua 1920au) | £2.00 |
| 9. | TOSH: John Toshack. London 1982. *Newydd–bargen* | £3.95 |
| 10. | HELEN OF THE HILLS: Gwen Owen. Gwasg Gee DD (tua 1960) | £2.50 |
| 11. | GEORGE–An Early Autobiography: Emlyn Williams. London 1961. Arg. 1af | £8.00 |
| 12. | GERALD OF WALES: A. G. Prys-Jones. London 1955 | £3.00 |
| 13. | THEY CAME TO SPY–Account of Nazi espionage in Great Britain (Ha!). Stanley Firmin 1947 | £5.00 |
| 14. | A MANUAL OF WELSH LITERATURE: J. C. Morris. Jarvis & Foster, Bangor 1909 | £8.00 |
| 15. | The Life & Work of Griffith Jones, Llanddowror. U.W.P. Caerdydd 1930 | £5.00 |
| 16. | Bilingualism in Welsh Education: W. R. Jones. U.W.P. 1966 | £5.00 |
| 17. | DENBIGHSHIRE HISTORICAL SOCIETY–Trafodion. Cyfrolau 8, 9, 10, 11, 27, 29, 30, 32: £5 yr un; 34, 37: £3 yr un. | |
| 18. | CYMDEITHAS HANES SIR GAERNARFON–Trafodion. Cyfrolau 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 20, 23, 26, 27, 29, 30, 31, 32: £5 yr un. Rhifyn 24 – Dathliad Chwarter Canrif: £7.50. | |